



### **39. CLUSTFEINIO (Moses a'r sarff aur)**

Dychmygwch ein bod wedi teithio'n ôl mewn amser. Y flwyddyn yw 3200 cc. Rydym yn yr anialwch gyda Moses a phlant Israel – ac am wneud rhyw ychydig o ymchwil.

Ond i ddechrau, rhywfaint o gefndir. Pobl a ddewiswyd gan Dduw yw'r dynion, y merched a'r plant sydd allan yn yr anialwch ac mae Duw am eu harwain i wlad newydd. Mae'r bobl wedi gweld llawer o wyrthiau. Dyna i chi fwyd, er enghraifft. Er mor anodd oedd dod o hyd i fwyd, cafodd y bobl hyn gyflenwad ffres o fanna yn disgwyl amdanynt tu allan i ddrws y babell bob bore wrth ddeffro – a hynny chwe diwrnod yr wythnos dros gyfnod o dri deg wyth mlynedd! Nid yw Duw byth yn methu. Byddent yn ei gasglu wrth godi. Yna'n ei falu'n flawd, ei ferwi a'i wneud yn deisennau gwastad sy'n blasu fel bara mêl.

Ond y cwestiwn y byddwn ni'n gwneud rhagor o ymchwil iddo yw: A yw'r Israeliaid yn gwirioneddol werthfawrogi caredigrwydd Duw tuag atynt?

Beth am ganfod rhagor? Caewch eich llygaid a dychmygwch eich bod yn clustfeinio ar sgwrs rhwng Lefiad bollog a'i wraig.

*Gŵr:* Rwy'n llwgu. Beth sydd i de?

*Gwraig:* Beth rwyd ti'n feddwl? Manna, siŵr iawn. Fe gei di o wedi ei bobî neu'n amrwd.

*Gŵr (dan achwyn):* Os gwela i un platiaid arall o'r stwff yna dwi'n meddwl y gwna i daflu fyny. Wnes i freuddwydio neithiwr am y bwyd roedden ni'n ei fwyta yn yr Aifft – ciwcymbyrs, melons, nionod, pysgod, garlleg, teisennau corn a mêl . . .

*Gwraig:* Peidia! Fedra i ddim dioddef mwy! Roedden ni'n hurt bost yn gadael hynny er mwyn hyn.

*Gŵr:* Dwi'n beio Moses. Fe ddylai fod wedi'n rhybuddio ni beth oedd o'n blaenau.

*Gwraig:* Ti'n iawn. Mae'n gas gen i fanna. Dwi'n beio Moses hefyd.

O diar! Yn ôl pob golwg does fawr o ddiolch i Dduw yn y babell hon. Efallai mai eu hoedran sy'n gyfrifol. Mae'n bosibl eu bod yn rhy hen i ymdopi efo bywyd yr anialwch. Wn i! Beth am glustfeinio ar sgwrs grŵp o ieuenctid i glywed beth sydd ganddynt hwy i'w ddweud?

*Pobl ifanc Israel:* Mae Moses yn gas. Mae Moses yn gas.

Canlyniad siomedig arall. Fe roddwn i un cynnig arall arni. Fe symudwn ni at y plant. Bydd y plant yn siŵr o werthfawrogi daioni Duw.

*Plant Israel:* O na! Nid manna eto. O na! Nid manna eto!

Wel, dyna ni. Mae'r plant yn cwyno hefyd. Yn ôl pob golwg rydym wedi teithio'n ôl 5,000 o flynyddoedd – ac wedi canfod ein hunain ymhlith cenedl o bobl sy'n gwneud dim ond grwgnach.

Nawr os ydych chi'n ofnus neu'n arfer cael hunllefau dyma'r amser i chi wibio'n ôl i'r ugeinfed ganrif oherwydd fe allai rhan nesaf y stori eich dychryn. Mae'n sôn am nadroedd. Cannoedd ohonynt.

Dowch i mewn, nadroedd. (Maent yn hisian.)

Yn sydyn iawn mae gan yr hen Israeliaid piwis lawer mwy i

gwyno amdano na phrydau bwyd manna diflas. Mae pla o nadroedd yn y gwersyll. Maent yn ymlusgo o gwmpas ymhobman – o dan y cerrig, o amgylch y pyst ac i mewn yn y pebyll. Does dim modd eu hosgoi. Maent yn ymosod ar bobl ac mae eu brathiadau'n farwol!

Felly, pam fod hyn yn digwydd?

Dyma ffordd Duw o adael i'r Israeliaid wybod ei fod wedi clywed eu hachwyn a'i fod yn ystyried eu holl gwynion am eu harweinydd a'u bwyd yn bechod difrifol. 'Nawr, gadewch i ni ddeall un peth,' mae'n dweud. 'Yr hyn rydech yn ei wneud mewn gwirionedd yw cwyno yn fy erbyn i.'

Does dim fel dôs dda o wenwyn nadroedd i wneud pobl yn ymwybodol o'u gwendidau!

Yn fuan iawn wedi i'r gwiberiaid gwenwynig daro yr oedd pobl yn heidio i babell Moses i ymddiheuro.

'Fe bechon ni wrth gwyno yn erbyn Duw a dy feio di.' Maent yn benisel. 'Os gweli di'n dda a wnei di ofyn i Dduw ein gwaredu ni rhag y nadroedd?'

Ochneidiodd Moses. Nid dyma'r tro cyntaf i'r math hwn o beth ddigwydd ac mae'n adnabod yr Israeliaid yn ddigon da i wybod nad hwn fydd y tro olaf chwaith. Byddai dyn a chanddo lai o amynedd wedi rhoi i fyny ers blynyddoedd. Ond nid felly Moses. Moses yw un o'r arweinwyr mwyaf ymroddedig erioed i droedio'r ddaear. Felly nid yw'n atgoffa'r Israeliaid eu bod wedi gwneud dim ond cwyno ers y diwrnod cyntaf iddynt adael yr Aifft. Nid yw'n dweud wrthynt eu bod yn haeddu cael eu brathu i farwolaeth. Na, mae'n mynd i ffwrdd i weddio drostynt. Ac fel arfer, pan weddïai'r arweinydd ymroddedig, fe atebai Duw.

'Gwna neidr o fetel a'i rhoi ar bolyn,' dywed Duw wrtho. 'Pan fydd y bobl a gaiff eu brathu yn edrych arno, cânt iachâd.'

Felly, dyma Moses yn llunio'r sarff bres a'i rhoi ar bostyn lle gall pawb ei gweld. Y munud nesaf caiff pobl oedd ar fin marw eu nerth yn ôl. Cyn i chi fedru dweud "haleliwia" maent yn dawnsio o amgylch yr anialwch. 'Hei, 'drychwch arnon ni. Mae Duw wedi'n hiacháu! Mae'r holl wenwyn wedi gadael ein cyrff!'

Ar y pryd wrth gwrs ni wyddent fod gan Dduw gynlluniau ar gyfer iachâd ysbrydol llawer mwy dramatig ychydig filoedd o

flynyddoedd yn ddiweddarach. Dyna lle mae gennym ni fantais. Gallwn ni ei dderbyn. A ninnau'n byw ar ddechrau'r trydydd mileniwm gwyddom bopeth am Iesu a'r bywyd newydd ddaw oddi wrtho.

Felly, fe adawn yr Israeliaid wrth iddynt ddathlu eu hiachâd a dychwelyd i'r ganrif hon. Wrth ffarwelio, fodd bynnag, beth am ofyn cwestiwn i ni'n hunain? Beth am ddychmygu fod rhai o'n cyfeillion Israelaidd wedi penderfynu dod gyda ni. Gadewch i ni ddychmygu eu bod am ganfod sut mae Cristnogion yr ugeinfed ganrif yn ymddwyn – a ydyn ni fel hwythau'n treulio'n hamser yn grwgnach neu a ydym yn llawn diolchgarwch am yr hyn mae Duw wedi ei gyflawni? Gadewch i ni ddychmygu eu bod am ymuno â ni a'n teuluoedd a chlustfeinio ar ein sgwrs. Y cwestiwn yw: Beth fyddent yn ei glywed?

**HYD:** Tua 6 munud. (Ond bydd angen caniatáu rhagor o amser ar gyfer effeithiau sŵn.)

**NEGES:** Roedd achwyn yr Israeliaid yn arwydd o'u diffyg ffydd yn Nuw. Mae gwir ffydd yn mynd law yn llaw â mawl a diolchgarwch.

**DARLLEN:** Numeri 21: 4–9, Ioan 3: 14–17.

### **ADRODD Y STORI I GRŴP:**

Paratowch at y stori hon trwy wneud recordiad o'r sgwrs rhwng y cwpl Israelaidd i'w chwarae ar yr adeg addas yn y stori. (Neu gallech drefnu i rywun ei hactio.)

Cyn dechrau dweud y stori rhannwch grŵp o blant yn dri – pobl ifanc Israelaidd, plant Israelaidd a nadroedd. Defnyddiwch y synau canlynol: pobl ifanc Israelaidd i siantio 'Mae Moses yn gas', plant Israelaidd i ailadrodd 'O na! Nid manna eto!', nadroedd i hisian. Adroddwch y stori gan gyflwyno'r effeithiau sŵn yn y manau priodol.